Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 28 Chwefror 2009 yn Llanidloes

09.01. Addoli Agoriadol a Chroeso

Mae'n bleser cael croesawu 34 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fynychu: Gogledd Cymru: Frank Brown; De Cymru: Barbara Prys Williams; Henffordd a Chanolbarth Cymru: Joyce Gee.

Penodwyd Susan Greaves a Pat Stoner yn henaduriaid am y diwrnod.

09.02. *Calon* a *The Friend*

Rydym yn penodi Barbara Prys Williams i adrodd ar y cyfarfod hwn i *"The Friend"* ac i *"Calon"*.

09.03 Cynllunio ar gyfer Cymuned, gwneud Cysylltiadau

Mae Lesley Richards o Gwrdd Church Stretton, ac o grŵp cynllunio a phwyllgor agenda Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol (CynCB), wedi'n harwain mewn trafodaeth am Gynulliad newydd y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ym mis Gorffennaf eleni. Rydym bellach yn deall rhai o anghenion y math hwn o gynulliad a sut y gallwn helpu i wneud iddo weithio'n well i'r holl gyfranogwyr. Gofynnir, os byddwn yn mynd i CynCB, i ni ystyried cynnig hwyluso grwpiau cartref oherwydd bod prinder hwyluswyr ar hyn o bryd.

Mae mwy o le ar yr agenda eleni, sy'n caniatáu mwy o drafodaeth am y materion, yn arbennig Perthynas Ymrwymedig, a Stiwardiaeth, hynny yw, sut rydym yn gwneud ein gwaith â'n gilydd.

09.04. Cyllid

(i) Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Rydym yn derbyn ac yn cytuno ar yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, a gyflwynwyd i ni gan y trysorydd, Jon Bell, gan ychwanegu'r frawddeg yn yr adolygiad ariannol: "Derbyniwyd gennym gymynrodd o £1000".

(ii) Cyllideb

Mae'r trysorydd wedi dod â chyllideb i ni ar gyfer 2009, wedi'i llunio o wybodaeth a anfonwyd ato gan y gwahanol is-grwpiau neu wedi'i hallosod o gyllideb y llynedd. Yr eitem fwyaf sylweddol yn y gyllideb yw cost cyflogi swyddog gweinyddol, a delir gan y grant o Gyfarfod Blynyddol Prydain.

Rydym yn cytuno i ddefnyddio'r gymynrodd a roddwyd gan John Roberts (gweler Cofnod 08.23) at ryw ddiben penodol yn hytrach na'i chynnwys yn ein cronfeydd cyffredinol. Felly, bydd yn cael ei sefydlu fel cronfa ddynodedig am y tro.

Rydym yn cytuno i ofyn i'r Cyfarfodydd Ardal am £5 y pen gan bob aelod sy'n oedolyn, gan nodi bod y swm hwn yn aros yr un fath er 2005.

(iii) Cyllid a pholisi gwneud grantiau
Ar ôl cytuno ar bolisi ariannol a rhoi grantiau yng Nghofnod 08.09 ar 15.iii.2008, gofynnwyd y dylai'r grŵp cymorth ariannol adrodd ar weithredu'r polisi hwn yn flynyddol. Hwn yw'r adroddiad cyntaf o'i fath, ar gyfer 2008. Mae'n trafod y rhannau hynny o'r polisi sy'n deilwng o sylw mewn pwyntiau byr, gan gyfeirio'n ôl at y polisi wedi'i rifo.
4. Paratowyd adroddiad chwemisol gan y trysorydd a'i archwilio yng nghyfarfod y clercod a'r cynullwyr. Mae peth ystyriaeth wedi'i rhoi i'r syniad o gael Cyfaill i gynnal archwiliad byr o'r cyfrifon hanner y ffordd trwy'r flwyddyn.
8. Rydym wedi mabwysiadu polisi o gael pob siec wedi'i llofnodi gan ddau lofnodwr. Er bod hyn yn anghyfleus, fe'i cafwyd yn werthfawr fel ffordd o wirio taliadau anfwriadol, megis pan fydd ceisiadau am gostau cyfieithu y mae Friends House yn gyfrifol amdanynt yn cael eu hanfon at Gyfarfod y Cyfeilion yng Nghymru.
6, 13. Gan na chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau eleni, ni fu galw ar y gronfa fwrsari ac nid oedd unrhyw gwestiwn nad oedd y rhain yn hunangynhaliol!
12. Ni wnaethpwyd unrhyw grantiau i gyrff allanol eleni.
Bu'r grŵp cyllid yn ymdopi heb unrhyw gyfarfod y llynedd, gan wneud popeth a oedd yn angenrheidiol trwy weithio o bell, neu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb anffurfiol.

Mae'r trysorydd wedi awgrymu y byddai o fudd penodi trysorydd cynorthwyol cyn gynted ag y bo modd, fel y bydd rhywun sy'n gyfarwydd â'r dasg cyn iddo orffen ei gyfnod gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn hon. Rydym yn cytuno â'r cais hwn ac yn gofyn i'n pwyllgor enwebiadau ddod ag enw i'n cyfarfod nesaf.

09.05. Enwebiadau a Phenodiadau
(i) Penodiadau rhwng cyfarfodydd:
Cynhadledd flynyddol Tystiolaeth Gymdeithasol a Heddwch y Crynwyr: 27-29 Mawrth: Veronica Grant (Canolbarth Cymru)
Synod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig: 7 Mawrth 09; Rhaeadr Gwy: Deborah Rowlands (DC)

(ii) Penodiad newydd
Clerc Cynorthwyol: Lynn Moseley (DC) tan 31 Rhagfyr 2011

(iii) Enwebiadau i gyrff Cyfarfod Blynyddol Prydain

(a) Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd y Crynwyr: mae Christine Trevett wedi gofyn i gael ei rhyddhau o'i gwasanaeth. Rydym yn enwebu Alice Southern (DC) i wasanaethu rhwng mis Mai 2009 a diwedd mis Ebrill 2012.

(b) Cyfarfod Dioddefiadau: Heather Wilcox (DC), Stevie Krayer (DC) (rhwng Cyfarfod Blynyddol 2009 a Chyfarfod Blynyddol 2012)

(iv) Cydgysylltydd i'r Eisteddfod 2-9 Awst, yn y Bala: Mari Evans (wedi'i phenodi gan Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru)

09.06 Calon – cynlluniau i'r dyfodol

Rydym yn ystyried dyfodol Calon.
Rydym wedi cael trafodaeth hir ynglŷn â defnydd, cynnwys a chyhoeddi Calon, ynghyd â'i berthynas â'r wefan newydd. Mae nodiadau llawn wedi'u cymryd gan Stevie Krayer, ein golygydd newydd. Rydym yn gobeithio cynhyrchu tri rhifyn y flwyddyn a datblygu'r berthynas â'r wefan newydd. Fe'n hatgoffir bod Calon yn cael ei ddefnyddio i ymestyn allan i'r rheini

sydd y tu allan i'r Crynwyr. Bydd hi'n falch o dderbyn cyfraniadau ac awgrymiadau ar stevie.krayer@care4free.net

09.07. *A Framework for Action*

Derbyniwyd llythyr gennym a gyrhaeddodd ar ôl y cyfarfod diwethaf, yn gwahodd sylwadau ar *A Framework for Action* gan ofyn am ymatebion erbyn 13 Chwefror. Mae'r clercod wedi anfon ymateb interim (sydd wedi bod ar gael i Gyfeillion ei weld heddiw) ac fe'n sicrhawyd na fydd yn rhy hwyr i anfon sylwadau ar ôl y cyfarfod hwn.

Byddai o fudd i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wybod beth yw cynnwys yr ymatebion gan gyfarfodydd ardal a lleol yng Nghymru. Byddwn yn archwilio ffyrdd o wneud hyn ar y cyd â Swyddfa'r Clerc Cofnodi.
Fel Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, rhaid i ni ganolbwyntio ar godi'n llais yn y byd gan sicrhau ei fod yn cael ei glywed. Rhaid i ni ddod o hyd i eiriau sy'n cyfleu ein neges. Rydym yn gwneud hyn trwy'n gwaith rhyng-eglwysig ac amlffydd. Roedd *Quaker Quest* yn Abertawe yn sianel wych i ddweud ein dweud a dod i adnabod ein gilydd mewn ffordd ddwys. Mae ymestyn allan a chysylltu â chymunedau lleol yn hanfodol. Mae gennym gymuned Gymreig rydym yn rhan ohoni a wasanaethir gennym yn anad yr un corff Crynwyr arall. Mae ein cyhoeddiadau yn y Gymraeg yn ffordd bwysig o wneud hyn. Rydym hefyd yn siarad trwy ein gweithredoedd.

09.08. Strwythurau yng Nghymru a'r Gororau

Rydym yn derbyn y cofnodion canlynol gan y Cyfarfod Dioddefiadau a gynhaliwyd 7.2.09:

S/09/02/7: Strwythur y Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau
Ymhellach i'n cofnod S/08/09/12 b) ac c) o fis Medi 2008, rydym wedi derbyn yr adroddiad terfynol gan y Clerc Cofnodi Cynorthwyol ar Strwythur y Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau, yn sgil y cais gan Gyfarfod Blynyddol 2005 i helpu i ddatrys materion yn ymwneud â ffin Cymru/Lloegr y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad a wnaed gan y grŵp RECAST (Cynrychiolaeth, Cyfathrebu ac Atebolrwydd yn ein Strwythurau) (papur S/09/02/E).

Rydym wedi nodi'r gwaith a wnaethpwyd ac yn cytuno i anfon yr adroddiad ymlaen at Gyfarfod Blynyddol 2009 er gwybodaeth.

Rydym yn deall efallai y bydd newidiadau pellach i ddod yn ardaloedd y Gororau.

Rydym yn ddiolchgar i'r Cyfeillion sy'n parhau â'r gwaith hwn am eu dyfalbarhad ffyddlon.

S/09/02/8: Cofnodion a Gohebu

a) Cyfarfod Ardal Henffordd a Chanolbarth Cymru: Ffurfio Cyfarfod Ardal newydd i Ganolbarth Cymru

Ymhellach i'n cofnod S/09/02/8 uchod, rydym yn derbyn cofnod 09/16 gan Gyfarfod Ardal Henffordd a Chanolbarth Cymru a gynhaliwyd 17 Ionawr 2009 ynglŷn ag Ailstrwythuro'r Cyfarfod Ardal (papur S/09/02/ mc i a).

Rydym yn cytuno i ffurfio Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru'n unol â'r cynnig, o 1 Ebrill 2009, gan edrych ymlaen at glywed yr enw newydd a ddewisir i Gyfarfod

Ardal Henffordd a Chanolbarth Cymru gynt a bod y trefniadau hyn yn mynd rhagddynt.

Susan Seymour
Clerc

Mae'r grŵp llywio a fu'n cydweithio â'r clerc cofnodi cynorthwyol bellach wedi'i ddiddymu, ond mae'n cynrychiolwyr yn dal i wneud y gwaith ar ein rhan trwy weithio ar femoranda dealltwriaeth â'r gwahanol gyfarfodydd ardal yng Nghymru. Mae dogfen ddrafft, sy'n edrych ar faterion ar gyfer cyfarfodydd ardal a gynhelir yng Nghymru'n gyfan gwbl neu'n bennaf, wedi'i llunio i'w thrafod. Ar hyn o bryd mae yn nwylo ymddiriedolwyr yn Ne Cymru. Rydym yn cytuno i anfon y ddogfen hon at ymddiriedolwyr yng Ngogledd Cymru am eu sylwadau cyn ein cyfarfod ym mis Mehefin, ac at gyfarfodydd ardal eraill yng Nghymru pan fydd yn briodol, fel y gallwn i gyd gefnogi'r broses newid.

Rydym yn nodi ffurfio'r cyfarfod ardal newydd yng Nghanolbarth Cymru a'r newidiadau posibl yn y Gororau. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y ffordd y cyfansoddir rhai o'n his-grwpiau. Rydym wedi cytuno i edrych ar strwythur ein his-grwpiau'n nes ymlaen yn y flwyddyn.

09.09 Trefniadau 2009

Mae ein pwyllgor Trefniadau wedi adrodd fel a ganlyn:

(i) Encil 16 Mai Dolwyddelan: Dosbarthwyd ffurflenni archebu heddiw. Hefyd fe'u dosberthir trwy e-bost a thrwy gyfarfodydd ardal. Bydd pobl yn dod at ei gilydd ar y diwrnod fel cymuned ond hefyd bydd ganddynt amser iddynt hwy eu hunain
(ii) 27 Mehefin: Felin-fach, Llanbedr Pont Steffan Mae'r lleoliad hwn bellach wedi'i gadarnhau.
(iii) 24 Hydref: Llanelwedd

09.10 Grŵp Cydgysylltu Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc

Rydym wedi derbyn adroddiad gan grŵp eiriolwyr dros waith â phlant a phobl ifainc sydd wedi bod ar gael i Gyfeillion ei ddarllen. Mae'r adroddiad yn nodi camau gweithredu i'w cymryd ym mhob cyfarfod ardal. Rydym yn nodi'r darnau canlynol o'r adroddiad:
Cafodd y pwyllgor hwn ei atal rhag cyfarfod ym mis Medi 2008 gan gyfarfod am yr eildro ym mis Ionawr 2009 yng Nghaerdydd. Ers y cyfarfod cyntaf mae Kate Binney yn ymgymryd â rôl Unigolyn Cymorth i'r holl Eiriolwyr yng Nghymru ac mae Julia Richardson wedi ymuno â'r grŵp fel yr Eiriolwr newydd dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc i Gyfarfod Ardal Henffordd a Chanolbarth Cymru. Mae'r pedwar Eiriolwr arall yn aros yr un fath: sef Chris Spragg i GC, Sarah Stacy i HChC a Sue Proudlove a Kate Rastall i DC.

*Prif **nodau**'r cyfarfod oedd rhannu beth sy'n digwydd ym mhob cyfarfod ardal er mis Chwefror 2008 ac i egluro a datblygu rolau Eiriolwyr a'r Unigolyn Cymorth Eiriolwyr.*
……
Bydd y cyfarfod yn ymgynnull eto ym mis Awst yn Henffordd. Cynhelir y gynhadledd bob tair blynedd ar gyfer Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc yn Woodbrooke ym mis Tachwedd.

***I gloi**, mae'r pwyllgor hwn yn amhrisiadwy ac yn helpu i ddatblygu a chefnogi gwaith â phlant*

a phobl ifainc yng Nghymru a'r Gororau. Mae ymdeimlad gwych â hunaniaeth ac mae pob aelod yn cael budd o'r gefnogaeth a geir yn y grŵp. Mewn sefyllfa grŵp mae'n haws canolbwyntio ar beth sydd angen ei wneud a sut i fynd ati i wneud y gwaith. Rydyn ni i gyd yn gorffen y diwrnod yn teimlo ein bod wedi'n cefnogi a heb fod cymaint ar ein pennau ein hunain.

Kate Binney
Cynullydd Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc HChC ac Unigolyn Cymorth i Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc yng Nghymru
02.02.09

Rydym yn falch bod y cyfarfod hwn yn gallu hwyluso cyfnewid sydd mor ddefnyddiol: efallai y bydd hwn yn fodel i'r dyfodol ar gyfer rolau eraill mewn cyfarfodydd ardal.

09.11 Ymestyn Allan

i Cyhoeddiadau

1.Fersiynau Cymraeg o daflenni eciwmenaidd. Anfonwyd fersiynau Saesneg a Chymraeg o'r pedair taflen hyn i bob cyfarfod yng Nghymru a'r Gororau ym mis Medi (8 copi i gyd). Ceir y fersiwn Saesneg a'r un Gymraeg ar
http://www.quaker.org.uk/Templates/Internal.asp?NodeID=94043
Pan gwblheir gwefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar ei newydd wedd rydym yn gobeithio y bydd y fersiynau Cymraeg yno gyda dolen â gwefan Cyfarfod Blynyddol Prydain.

2. Pecynnau Taflen i Ymholwyr**.** Mae'r daflen bellach wedi'i chyfieithu i'r Saesneg. Anfonir y fersiynau Saesneg a Chymraeg i *Friends House* i'w cyhoeddi yn y man. Bydd hefyd ar wefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

3. Cyfieithu taflenni Angladdau a Phriodasau i'r Gymraeg: Mae'r daflen angladdau wedi'i chyfieithu. Gan fod Cyfarfod Blynyddol Prydain yn ystyried safbwynt y Crynwyr ar bartneriaeth sifil yn ystod y Cyfarfod Blynyddol hwn, mae'n debygol y cynhyrchir fersiwn newydd o'r daflen briodasau yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Rydym wedi'n hawdurdodi i fynd rhagom â chyfieithu a chyhoeddi digon o daflenni am ddwy flynedd.

4. Taflen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hon ar hyn o bryd.

5. Joseph Tregelles Price Mae'r daflen hon hefyd wedi'i hailgyhoeddi.

ii. Arddangosfa:
Mae Roger Holloway yn gweithio ar uwchraddio'r arddangosfa barhaol, hy, "Yr hyn rydym yn ei gredu…" a phaneli Waldo.

iii. Gwefan
Mae ein swyddog gweinyddol, Jules Montgomery, wedi bod yn gweithio i uwchraddio'n gwefan. Mae'r fframwaith yn fyw ar y we erbyn hyn a gwneir rhagor i'w huwchraddio yn yr ychydig wythnosau nesaf. Byddai hi'n gwerthfawrogi adborth gan Gyfeillion, yn enwedig ar agweddau technegol, a bydd yn adrodd yn ôl yn hwyrach yn y flwyddyn. Y cyfeiriad yw "quakersinwales.org.uk".

iv. Eisteddfod
Cytunwyd yng nghyfarfod cyntaf pwyllgor yr Eisteddfod mai'r thema eleni fydd yr amgylchedd; defnyddir hon yn Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol, a hefyd yn y Sioe Frenhinol.

Bob blwyddyn, mae ychwanegiad o 3% at y swm a delir am y stondinau (eisteddfod a sioe). Mae Cytûn yn awyddus i logi stondin ddwbl yn Eisteddfod yr Urdd i ymestyn allan yn well i bobl ifanc. Bydd hyn yn costio mwy, ychwanegiad o 10% yn 2010. Cefnogwn y fenter hon.

v. Digwyddiadau Ymestyn Allan Eraill:
Cerdded i Gynulliad y Cyfarfod Blynyddol:
Mae Catherine James yn gobeithio cerdded o Dŷ Cwrdd Dorothy Owen yn Nhabor ger Dolgellau i Gynulliad y Cyfarfod Blynyddol yn yr haf. Bydd yn gyfle i ddatblygiad ysbrydol. Byddai'n hoffi clywed am eraill a fyddai â diddordeb mewn cerdded hefyd, naill ai am ran o'r ffordd, neu bob cam.

09.12. Diogelu Data:

Gan nad oes gennym ddigon o incwm blynyddol i gofrestru â'r Comisiwn Elusennau ar wahân, rydym yn cael ein cynnwys ym Mholisi Diogelu Data Cyfarfod Blynyddol Prydain gan ardystio cydymffurfiaeth i Swyddfa'r Clerc Cofnodi bob blwyddyn. Ymgymerir â chasglu gwybodaeth oddi wrth aelodau a mynychwyr gan y cyfarfodydd ardal dan sylw, ond dylai pawb sy'n defnyddio gwybodaeth bersonol aelodau ar gyfer gwaith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru fod yn ymwybodol o bolisi Cyfarfod Blynyddol Prydain sydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar www.quaker.org.uk <http://www.quaker.org.uk> neu gan swyddog gweinyddol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

09.13. Cytûn a Chysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd

i. Cytûn
Mae trafodaethau wedi cychwyn â'r ddau gorff cenedlaethol arall ynglŷn ag ariannu'r offerynnau cenedlaethol. Mae'r Alban a Lloegr yn ymwybodol, er eu bod yn ddigon mawr i ariannu eu strwythurau eu hunain, nid felly Cymru. Eleni, mae Cytûn yn gosod cyllideb ddiffyg, ond bydd y cronfeydd wrth gefn yn ei diwallu.
Mae swyddogion Cytûn yn gweithio ar annog grwpiau lleol i gysylltu'n agosach â'r canol. Trafodir corff noddi i'r Partneriaid Eciwmenaidd lleol; byddai hyn yn gysylltiedig â grŵp Galluogi wedi'i dynnu o'r holl eglwysi yn Cytûn ac o grwpiau cysylltiedig eraill. Gallai'r grŵp galluogi hwn roi cyngor, wedi'i dynnu o'i gysylltiadau helaeth, i fwrdd Cytûn.

ii. Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd y Crynwyr (QCCIR).
Mae Catherine James wedi trefnu i Robin Bennett, clerc QCCIR, gwrdd ag Aled Edwards o Cytûn i drafod materion eciwmenaidd ac amlffydd yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y gall ein cynrychiolydd QCCIR newydd hefyd ddod i'r cyfarfod. Bydd QCCIR yn cyfarfod yng Ngogledd Cymru ym mis Mehefin.

Catherine James
Deborah Rowlands
Cyd-glercod